ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cylch Gwaith Blynyddol Estyn 2019-2020

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu cylch gwaith blynyddol Estyn ar gyfer 2019/20 gan y Gweinidog dros Addysg. Mae'r cylch gwaith blynyddol yn ychwanegol at waith craidd Estyn o gynnal arolygiadau.

## Y cyngor penodol sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru yn 2019/20

### 1a) Adroddiadau manwl a, lle bo'n briodol, adnoddau eraill sy'n defnyddio tystiolaeth a gesglir yn ystod arolygiadau thematig

Caiff yr adolygiadau thematig sydd i'w cynnwys yng nghylch gwaith Estyn ar gyfer 2019/20 eu rhestru yn y tabl ar y dudalen nesaf.

Mae'r rhestr yn cynnwys 13 eitem: 2 adolygiad mawr a fydd yn darparu deunyddiau ategu ymarferol i'r sector; 8 adolygiad safonol; a 3 adolygiad cryno. Hefyd, mae capasiti ychwanegol am un adolygiad arall.

Mae'r rhestr o eitemau yn adlewyrchu cylch gwaith strategol sy'n gysylltiedig â'm blaenoriaethau ar gyfer addysg a hyfforddiant, gyda phwyslais ar yr hyn sy'n deillio o *Dyfodol Llwyddiannus*.

| | Teitl | Diben | Blwyddyn / Cyfnod |
|---|---|---|---|
| 1. | Ysgolion pob oed | Bydd yr adroddiad yn adolygu'r arweinyddiaeth, y ddarpariaeth a'r perfformiad mewn ysgol 'pob oed' (ysgolion 3-16, 3-19 a 4-19). Bydd yn canolbwyntio yn arbennig ar fanteision a heriau'r model pob oed. | Blwyddyn 1 o 1<br>Adolygiad mawr |
| 2. | Ysgolion Uwchradd yn paratoi am y cwricwlwm newydd | Bydd yr adroddiad hwn yn dilyn yr adroddiad yn 2018 ar y gwaith arloesi mewn ysgolion cynradd a fu'n edrych ar sut mae ysgolion cynradd yn paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd ac yn cynnig astudiaethau achos o arferion diddorol sy'n dod i'r amlwg. I gyd-fynd â'r adroddiad, caiff cynhadledd ei chynnal yn 2020. | Blwyddyn 1 o 1<br>Adolygiad mawr |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3. | Cyflawniad cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru mewn rhaglenni dysgu galwedigaethol | Bydd yr adolygiad hwn yn ffocysu'n benodol ar arfer da o ran integreiddio cymwysterau sgiliau hanfodol wrth gyflawni dysgu. Byddai hyn yn datblygu ar gasgliadau arolygon blaenorol o golegau addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith o ran diffygion yn sut y cynllunnir ac y cyflawnir cymwysterau sgiliau hanfodol mewn rhaglenni dysgu galwedigaethol, yn ogystal â'r hyn sy'n deillio o adolygiad Cymwysterau Cymru o'r cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru newydd. | Blwyddyn 1 o 1 Adolygiad safonol |
| 4. | Ysgolion cymunedol | Bydd yr adolygiad hwn yn canolbwyntio ar ba mor dda mae ysgolion yn gweithio gydag asiantaethau a gwasanaethau yn rhan o’u cymuned leol er mwyn darparu hybiau gwasanaethau. Bydd yn edrych yn arbennig ar y ffordd mae ysgolion yn ymgysylltu â rhieni a’r effaith ar y gymuned gan gynnwys grwpiau cyn-ysgol gwirfoddol sy’n cael eu rhedeg gan ysgolion, clybiau ar ôl ysgol, a’r defnydd sy’n cael ei wneud o adeiladau a safle’r ysgol gan y gymuned y tu allan i oriau arferol yr ysgol, dros y penwythnosau ac adeg y gwyliau. | Blwyddyn 1 o 1 Adolygiad safonol |
| 5. | Y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion anabl | Byddai'r adolygiad hwn yn rhan o'n ffocws blynyddol ar gynhwysiant - edrych ar effaith y ddarpariaeth addysg ar grwpiau o ddysgwyr sy'n agored i niwed. Er nad oes pwyslais wedi'u rhoi ar y grŵp hwn o ddysgwyr | Blwyddyn 1 o 1 Adolygiad safonol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | mewn arolygiad, byddai peth tystiolaeth o gasgliadau arolygon blaenorol ar y ddarpariaeth ar gyfer y grŵp hwn drwy gynlluniau mynediad ysgolion. | |
| 6. | Partneriaethau a chynllunio ar y cyd rhwng ysgolion a cholegau | Bydd yr adolygiad hwn yn edrych ar raglenni 'galwedigaethol cymysg' (cymwysterau BTEC mewn gwahanol bynciau) yn y chweched dosbarth ac mewn colegau addysg bellach: pa mor dda y maent yn diwallu anghenion y dysgwyr, ac a ellir sicrhau gwell cydlyniant rhwng ysgolion a cholegau o ran y ddarpariaeth. Byddai'r adolygiad hwn yn datblygu ar yr adolygiad thematig Safon Uwch drwy edrych i weld a yw systemau addysg lleol yn cefnogi dysgwyr i astudio'r cyrsiau ôl-16 sy'n diwallu eu hanghenion orau, ac sydd fwyaf priodol o ran eu galluoedd, a hynny mewn amgylcheddau sy'n briodol iddyn nhw. | Blwyddyn 1 o 1<br>Adolygiad safonol |
| 7. | Cymraeg Iaith Safon Uwch | Yr ail mewn cyfres o adroddiadau i roi trosolwg o'r sefyllfa yn y wlad; hynny yw, yr heriau a'r arferion sy'n gysylltiedig â'r safonau, y ddarpariaeth ac arweinyddiaeth o ran Safon Uwch. Bydd yr adroddiad yn canolbwyntio ar y Gymraeg yn y chweched dosbarth ac mewn colegau. | Blwyddyn 1 o 1<br>Adolygiad safonol |
| 8. | Hyfforddiant ieuenctid a chymunedol | Adolygiad dilynol i'r adroddiad yn 2018 ar werth gwaith ieuenctid, gan ffocysu y tro hwn ar hyfforddiant ieuenctid a chymunedol. Byddai'r | Blwyddyn 1 o 1<br>Adolygiad safonol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | adolygiad hefyd yn ystyried cynnydd mewn perthynas ag argymhellion adroddiad Estyn o 2010 ar hyfforddiant cymhwyster proffesiynol ar gyfer gweithwyr ifanc yng Nghymru. | |
| 9. | Lles emosiynol ac iechyd meddwl | Adolygiad dilynol i arolwg thematig 2018-2019 o Faes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles drwy ganolbwyntio'r tro hwn ar ddarpariaeth lles emosiynol ac iechyd meddwl. Yn benodol, bydd yr adroddiad yn edrych ar effaith gwnsela yn yr ysgol. Bydd yr adroddiad hefyd yn ystyried pa mor dda y mae ysgolion yn paratoi a chefnogi eu disgyblion ar gyfer pontio i ddysgu ôl-16, gan gynnwys eu gwaith gyda cholegau a darparwyr ôl-16 eraill i baratoi disgyblion am yr heriau y gallai hyn eu gosod o ran iechyd meddwl, gan gynnwys y 'cam i fyny' i astudio ar lefel uwch a ffyrdd mwy annibynnol o ddysgu. | Blwyddyn 1 o 1<br>Adolygiad safonol |
| 10. | Caffael iaith | Bydd yr adroddiad yn canolbwyntio ar ba mor dda mae ysgolion cynradd yn helpu disgyblion i gaffael iaith ac i ymestyn eu geirfa er mwyn cefnogi datblygiad eu sgiliau darllen ac ysgrifennu | Blwyddyn 1 o 1<br>Adolygiad safonol |
| 11. | Diogelu | Peilot o arolygon wedi'u targedu o fater diogelu ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Arolygiaeth ei Mawrhydi o’r Gwasanaethau Heddlu a Thân ac Achub. | Blwyddyn 1 o 1<br><br>Adolygiad cryno |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 12. | Ymyriadau effeithiol i gefnogi dysgwyr o dan anfantais a dysgwyr agored i niwed. | Bydd yr adolygiad hwn yn canolbwyntio ar nodi'r arferion effeithiol drwy astudiaethau achos yn amlinellu'r hyn sy'n gweithio wrth ddefnyddio strategaethau yn effeithiol gan gynnwys grantiau megis y Grant Datblygu Disgyblion i roi cymorth i ddysgwyr o dan anfantais a dysgwyr agored i niwed. | Blwyddyn 1 o 1 Adolygiad cryno |
| 13. | Pa mor gyffredin yw'r arfer o ysgolion yn tynnu disgyblion oddi ar y gofrestr, ac effaith hynny | Bydd yr adroddiad hwn yn ffocysu ar ganfod pa mor gyffredin yw'r arfer o ysgolion yn tynnu disgyblion oddi ar y gofrestr a beth y mae awdurdodau lleol yn ei wneud i fynd i'r afael â hyn. Bydd yn ystyried beth sy'n digwydd i'r disgyblion sy'n cael eu tynnu oddi ar gofrestr eu hysgol a ble maent yn derbyn eu haddysg. | Blwyddyn 1 o 1 Adolygiad cryno |
| Capasiti ychwanegol ar gyfer un adolygiad thematig arall. | | | |

**1(b): Parhad o'r gwaith gyda'r OECD ar y pecyn cymorth ar gyfer hunanasesu a chynllunio gwella.**

Bydd Estyn yn parhau i weithio gyda'r OECD i arwain a hwyluso gwaith gweithgor i ddatblygu pecyn cymorth a chyd-ddealltwriaeth o beth yw hunanwerthuso a chynllunio datblygiad da yng Nghymru.

**1c) Peilot gan Estyn ar gynnal arolygiadau thematig ar sail meysydd penodol**

Cytunir maes o law ar thema'r peilot.

**1d): Meysydd polisi y gallai'r Gyfarwyddiaeth Addysg geisio cyngor neu gymorth yn eu cylch, a hynny drwy gyfrannu at waith gweithgorau**

Mae Estyn yn darparu cyngor a chymorth ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn amrywiaeth o feysydd. Gellir gofyn i Estyn roi cymorth i amryw o wahanol weithgorau, drwy ddod yn rhan ohonynt, drwy gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig, neu drwy drafodaethau gydag uwch-swyddogion y Gyfarwyddiaeth Addysg.

Ar gyfer 2019/20, rhagwelir y bydd Estyn yn rhan o'r gweithgorau canlynol, ond bydd hyn yn cael ei adolygu wrth i'r gwaith fynd rhagddo:

- Y Gangen Diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Fforwm Cymru Gyfan o Ymarferwyr Addysg Sipsiwn-Teithwyr
- Grŵp Llywio Dysgu Creadigol
- Grŵp Llywio Mesurau Perfformiad Cyson
- Grŵp Arbenigol y Cwricwlwm ac Asesu, Cwricwlwm i Gymru
- Grŵp Cyfathrebu Cwricwlwm i Gymru
- Grŵp Llywio'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol, Cwricwlwm i Gymru
- Bwrdd Cyflawni Gweithredol Cwricwlwm i Gymru
- Grŵp Cydlyniant Cwricwlwm i Gymru
- Grŵp  Rheolaeth Cwricwlwm i Gymru
- Grŵp Asesu Cwricwlwm i Gymru
- Gweithredu Adolygiad Cwricwlwm i Gymru Bwrdd Newid
- Grŵp Llywio'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol
- Gweithgor y Fframwaith Cymhwysedd Digidol
- Bwrdd Prosiect Astudio Cyrchfannau
- Grŵp Gweithrediadau Digidol
- Gweithgor Safonau Digidol
- Grŵp Safonau Digidol
- Grŵp Llywio Digidol 2030
- Grŵp Cyflawni Addysg Heblaw yn yr Ysgol
- Grŵp Rhanddeiliaid Strategol Diwygio Addysg
- Gweithgor Rhanddeiliaid Addysg Ddewisol yn y Cartref
- Grŵp Arbenigwyr y Cyfnod Sylfaen
- Grŵp Llywio Dyfodol Byd-eang
- Fforwm Arbenigol Addysg Gychwynnol Athrawon
- Bwrdd Recriwtio a Chadw Addysg Gychwynnol Athrawon
- Grŵp Trosglwyddo o Addysg Gychwynnol Athrawon
- Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol ar y Cyd ar gyfer Ymagwedd Ysgol Gyfan tuag at Iechyd Meddwl a Lles
- Cyfarfod Cadw mewn Cysylltiad (Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, Llywodraeth Cymru ac Arolygiaethau)
- Bwrdd Prosiect Ysgolion sy'n Ymarferwyr Arweiniol ac Ysgolion sy'n Ymarferwyr Datblygol
- Fforwm Awdurdod Lleol ar Gyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig a Sipsiwn, Roma a Theithwyr
- Y Cyngor Dysgu Digidol Cenedlaethol
- Rhwydwaith Rhagoriaeth Cenedlaethol ar gyfer Mathemateg
- Rhwydwaith Rhagoriaeth Cenedlaethol ar gyfer Gwyddoniaeth a Thechnoleg
- Grŵp Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cynghorwyr Herio
- Grŵp Strategol Cenedlaethol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal
- Grŵp Cyfeirio Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid
- Gweithgor PISA
- Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol
- Grŵp Llywio Adolygiad Dysgu Proffesiynol Ôl-16

- Yr Adolygiad o Safonau Proffesiynol Athrawon
- Grŵp Llywio Diogelu mewn Addysg
- Y Cynnig Gofal Plant ar gyfer Cymru: Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid
- Fforwm Strategol Cymru ar gyfer Datblygu Gyrfaoedd
- Cynhadledd Gwella a Chymorth Llywodraeth Cymru

Gweithgorau Meysydd Dysgu a Phrofiad Cwricwlwm i Gymru:
- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg.

Gweithgorau Arloeswyr Dysgu Proffesiynol Cwricwlwm i Gymru

**1e): Meysydd eraill y gallai'r Gyfarwyddiaeth Addysg geisio cyngor a chymorth yn eu cylch**

Mae Estyn hefyd yn cynnig cefnogaeth barhaus yn y meysydd canlynol:

- Cynigion yn ymwneud â chau ac ad-drefnu ysgolion.

- Lleoliadau ar gyfer disgyblion sydd â datganiad o angen addysgol arbennig (AAA), lle mae caniatâd penodol gan Weinidog Cymru yn ofynnol o dan adran 347(5)(b) o Ddeddf Addysg 1996.

- Monitro'n flynyddol ysgolion annibynnol sydd wedi'u cymeradwyo o dan adran 347(1) o Ddeddf Addysg 1996 i dderbyn disgyblion â datganiadau o anghenion addysgol arbennig yn gyffredinol ac sydd â disgyblion ag AAA ar y gofrestr; neu ysgol annibynnol sydd wedi'i chofrestru i dderbyn disgyblion sydd ag AAA o dan adran 158 o Ddeddf Addysg 2002 ac sydd â disgyblion ag AAA ar y gofrestr.

- Arolygu a monitro’n flynyddol holl golegau arbenigol ac annibynnol Cymru, a darparu arolygydd fel rhan o dîm ar gyfer yr arolygiadau neu’r ymweliadau monitro blynyddol â cholegau arbenigol annibynnol yn Lloegr lle y caiff lleoedd 10 neu fwy o ddysgwyr o Gymru eu cyllido;

- Diweddaru arferion cofrestru.

- Y Grant Datblygu Disgyblion.

- Y Grant Gwella Addysg ar gyfer ysgolion;

- Datblygu cymwysterau a threfniadau arolygu ar gyfer unrhyw ofynion newydd arfaethedig o ran hyfforddiant cychwynnol i athrawon a

datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer athrawon, tiwtoriaid a hyfforddwyr yn y sector dysgu gydol oes.

- Ysgolion sy'n peri pryder;
- Gwaith dilynol gyda'r Awdurdodau Addysg Lleol;
- Enwebiadau er Anrhydedd;
- Gwybodaeth gefndir ar gyfer ymweliadau Gweinidog ag ysgolion;
- Cwestiynau'r Cynulliad.

ISBN digidol 978-1-83876-198-1
© Hawlfraint y Goron Ebrill 2019
**WG37811**